# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 2**

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu*

**27 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 12**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan—

(a) bo corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer disgybl cofrestredig o dan adran 12(1) neu 12(3), a

(b) bo'r plentyn neu'r person ifanc neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ailystyried y cynllun gyda golwg ar ei ddiwygio.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun a phenderfynu pa un ai i ddiwygio'r cynllun ai peidio.

(3) Cyn iddo wneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu na ddylai'r cynllun gael ei ddiwygio rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o hysbysiad o dan is-adran (4) i'r corff llywodraethu.

(6) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r cynllun gael ei ddiwygio, neu os gorchmynnir iddo ei ddiwygio gan Dribiwnlys Addysg Cymru, rhaid iddo lunio cynllun diwygiedig a naill ai—

(a) cyfarwyddo'r corff llywodraethu i'w gynnal, neu

(b) arfer y pŵer yn adran 28(6) i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r corff llywodraethu (am ddarpariaeth ynghylch eraill y mae rhaid rhoi copi iddynt, gweler adran 23(11)).

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 27(1)(b) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(l)**

**C2** A. 27(1)(b) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(i)**

**C3** A. 27(4) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(m)**

**C4** A. 27(4) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(i)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(3)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I3** A. 27 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(2)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I4** A. 27 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(c)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I5** A. 27 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I6** A. 27 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.